# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Iau, 9 Mehefin 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd

**Y Cynghorwyr:**

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. Bracey, Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell 66, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.30  - 10.45 am**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. POLISI ÔL-OFAL YN UNOL AG ADRAN 117, DEDDF IECHYD MEDDWL 1983.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ynghylch y cynnig bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn llofnodi i fabwysiadu polisi ar gyfer y tair sir, dan ddarpariaethau Adran 117, Polisi Ôl-ofal, Deddf Iechyd Meddwl 1983. Adroddwyd bod y Ddeddf yn gofyn bod Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn sefydlu polisïau a gytunir ar y cyd ynghylch darparu gwasanaethau dan Adran 117, a bod y polisi presennol wedi'i baratoi ar y cyd gan y tri Awdurdod Lleol, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, ynghyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Wrth ystyried yr adroddiad, cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at adran 11.2 ohono a chwestiynodd yr angen i gynnwys y frawddeg gyntaf ynghylch codi tâl ar ofalwyr am wasanaethau gofal cymdeithasol, ar y sail bod y polisi'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir dan Adran 117.

Dywedodd Pennaeth Iechyd Meddwl a Datblygiad Dysgu, pe bai'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo'r polisi, yn amodol ar y newid uchod, y byddai angen i'r newid hwnnw gael ei anfon ymlaen at bartneriaid y polisi er mwyn iddynt roi ystyriaeth iddo.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar ddileu'r frawddeg gyntaf o ran 11.2 o'r polisi, fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn llofnodi polisi'r tair sir ynghylch Polisi Ôl-ofal Adran 117, a luniwyd yn unol â darpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983.**

## 3. CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12FED MAI, 2015.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 12 Mai 2015 yn gofnod cywir.**

CADEIRYDD

DYDDIAD